

# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

<b>Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:</b>	Camddefnyddio Sylweddau a Dibyniaeth
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	28 Chwefror 2024
<b>Lleoliad:</b>	Ystafelloedd Cynadleda C a D, Llawr Cyntaf Tŷ Hywel, a Microsoft Teams

## Yn bresennol:

<b>Enw:</b>	<b>Teitl:</b>
Peredur Owen Griffiths AS/MS	Aelod o'r Senedd Plaid Cymru yn cynrychioli Dwyrain De Cymru
David Wing	Siaradwr Gwadd, Arweinydd Lleihau Niwed, canolfan Huggard
Yr Athro Alex Stevens	Siaradwr Gwadd, Prifysgol Caint
Martin Blakebrough	Prif Swyddog Gweithredol, Kaleidoscope
Cris Watkins	Swyddog Ymgyrchoedd a Chyfathrebu, Kaleidoscope
Rhestr Ddosbarthu'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y Sector Cyfan	
Richard Amos	GDAS (Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent)
Luke Jones	Gweithiwr cyffuriau sy'n gwella delwedd a pherfformiad, GDAS
Emma Saha	Rheolwr Prosiect Defnydd Sylweddau, Gwasanaeth Prawf Cymru
Jennifer Evans	Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Daniel Harman	Rheolwr Prosiect, Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Yr Athro Katy Holloway	Prifysgol De Cymru, Athro mewn Trosedd
Thomas Hollick	Y Wallich
Helen Erswell	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar atal cyffuriau, alcohol a gamblo
Heidi.Anderson@torfaen.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Caroline Davies	Adferiad, Pennaeth Gwasanaethau Triniaeth
Ben Lloyd	Cyfarwyddwr G4S Community
Katrina Howatt	Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Llinell Gymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Carol Daly	Ysbyty Bronllys, Arweinydd Lleihau Niwed
Elwyn Thomas	Kaleidoscope, Arweinydd Cydgynhyrchu
Julian Knight	Bwrdd Kaleidoscope
Dr Danny Antebi	Cadeirydd Prosiect Kaleidoscope



Mark Tudor	Bwrdd Kaleidoscope
Jim Henton	Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro (GCACAF)
Luc O'Neil	Cranstoun, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Busnes
Becky Twose	Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, Cynghorydd Polisi
Dorian Dunnell	Arweinydd Tîm GCACAF
y Tad Dean Atkins	Gweinidogaeth De Caerdydd
Matt Jones	Cyfoedion GDAS
Cullan Mais	Tîm Cydgynhyrchu Kaleidoscope
Jodie Davies	Gwirfoddolwr Cyfoedion Rhondda Cynon Taf
Ben Langwith	Powys
Caryl Watkins	Tîm Comisiynu Caerdydd a'r Fro
Rick Stephens	Sylfaenydd, Phoenix Heroes
Vincent Condron	GCACAF
Scott Morgan	

### Crynodeb o'r cyfarfod:

#### Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

Croesawodd Peredur Owen Griffiths bawb a oedd yn bresennol, boed hynny yn yr ystafell neu ar-lein, i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Rhoddwyd gwybod sut i ddefnyddio'r offer cyfieithu ar y pryd.

Gofynnwyd i Martin Blakebrough o Kaleidoscope gadeirio'r sesiwn dros dro i hwyluso'r broses o enwebu ymgeiswyr i wasanaethu fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cynigiwyd Peredur Owen Griffiths fel Cadeirydd a chafodd ei ethol drwy godi dwylo.

Cynigiodd Peredur Owen Griffiths fod Kaleidoscope yn parhau i ddarparu cefnogaeth Ysgrifenyddol i'r Grŵp Trawsbleidiol.

Cymeradwyodd y grŵp yr enwebiad drwy godi dwylo (Crispin Watkins o Kaleidoscope i weithredu fel Ysgrifennydd).

Nododd Peredur fod yn rhaid i'r Grŵp Trawsbleidiol gyflwyno ei gyfrifon am y flwyddyn. Nid oedd y Grŵp Trawsbleidiol wedi derbyn na dal cronfeydd ariannol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cafodd y swm o £85.20 ei wario gan Peredur Owen Griffiths i dalu am de a choffi yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 i gefnogi gwaith y grŵp.

#### Sylwadau agoriadol cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol a materion ffurfiol

Croesawodd Peredur Owen Griffiths AS bawb i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gamddefnyddio Sylweddau a Dibyniaeth. Ailddatganodd Peredur ddiben y grŵp hwn, gan bwysleisio'r ffocws allweddol ar wrando ar bobl â phrofiad bywyd, boed hynny ar hyn o bryd neu yn y gorffennol, yn ogystal â phobl sydd â phrofiad rheng flaen o'r materion gwirioneddol sy'n wynebu pobl sy'n defnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r grŵp hefyd yn trafod mewnwelediadau academaidd a arweinir gan dystiolaeth, gyda'r nod o helpu i lywio polisi a gwaith y bobl sy'n llunio polisiau yn y maes.

**Nod y digwyddiad hwn oedd archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwella'r gwasanaethau lleihau niwed presennol yng ngoleuni ymchwil academaidd fyd-eang ar ganolfannau atal gorddos, a phrofiad rheng flaen o weithredu cyfnewidfa nodwyddau chwistrell fwyaf Cymru.**

### **Crynodeb o bwytiau'r siaradwyr:**

#### **David Wing, canolfan Huggard**

David Wing yw Arweinydd Lleihau Niwed canolfan Huggard yng Nghaerdydd. Canolfan Huggard yw prif ganolfan Cymru ar gyfer pobl sy'n ddigartref ac yn cysgu ar y stryd. Siaradodd David am y profiad ymarferol o weithredu gwasanaeth cyfnewid nodwyddau chwistrell prysuraf Cymru i gefnogi pobl ddigartref a defnyddwyr cyffuriau sy'n chwistrellu cyffuriau.

Cyflwynodd David Wing ei hun a chanolfan Huggard. Wedi'i leoli ger Gorsaf Caerdydd Canolog, mae'r ganolfan yn cynnwys nifer o adeiladau sy'n cyfuno hosteli a gwasanaethau a chyfleusterau lluosog â mynediad agored ar un safle. Mae'n cynnwys cyfnewidfa nodwyddau 24 awr sy'n agored i bawb, nid dim ond defnyddwyr yr hostel.

Yn ystod ail hanner 2023, bu tua 2,600 o gyfnewidiadau, gan gynnwys nodwyddau, chwistrellau, fitamin C ac offer arall sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau'n fewnwythiennol.

Yn hanesyddol, yn y cyfnod cyn sefydlu canolfan Huggard, mae'r ardal hon yn Butetown a Dociau Caerdydd wedi bod yn lleoliad ar gyfer gwerthu cyffuriau anghyfreithlon. Dangosodd arolygon yn 2019 a 2021 mai Butetown a Grangetown oedd yr ardaloedd lle cofnodwyd y nifer fwyaf o arestiadau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau. Hefyd, roedd gan yr ardaloedd hyn rai o'r lefelau uchaf o sbwriel cyffuriau yn y ddinas. Fel sy'n arferol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a defnyddio sylweddau, mae canolfan Huggard a'r gyfnewidfa wedi'u lleoli lle mae'r angen mwyaf, yn hytrach na bod yn fagnet i'r bobl sydd mewn angen.

Yn ogystal â'r data academaidd yr oedd cyflwyniad yr Athro Stevens yn eu trafod, nodwyd bod natur ansoddol y broses o ymgysylltu â chleientiaid yn ganolog i'r gwaith ar y rheng flaen. Mae gallu cleientiaid i fynegi eu dymuniadau, eu hanghenion a'u hofnau dros amser yn cynnig llwybr iddynt gael mynediad at wasanaethau a newid eu patrwm defnyddio, gan symud tuag at ymatal o bosibl. Mae digartrefedd yn peri llawer iawn o

straen, sydd yn ei dro yn sbarduno'r awydd i ddefnyddio cyffuriau. Mae llawer o bobl ddigartref yn defnyddio cyffuriau neu alcohol i leddfu'r boen sy'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, a thrawma yn ystod plentyndod.

Mae'r gyfnewidfa yn lleihau niwed i'r cleient yn uniongyrchol drwy leihau'r risg o feirysau a gludir yn y gwaed o ganlyniad i aildefnyddio a rhannu nodwyddau. Dangosir hefyd bod cyfnewidfeydd yn arwain at wellhad mewn meysydd eraill, megis gofal clwyfau. O ganlyniad, mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys adrannau damweiniau ac achosion brys. Maent hefyd yn helpu i ymdrin â sbwriel cyffuriau. Yr epidemig AIDS oedd yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y cyfnewidfeydd yn y 1980au, a chaiff y gwasanaethau hyn eu cydnabod fel cam allweddol yn y frwydr yn erbyn lledaeniad HIV.

Meddai Dave: 'Ein profiad ni yw y gall aildefnyddio nodwyddau a phibellau crac cocên gael ei ysgogi gan ddigartrefedd'. Mae gan staff yng nghanolfan Huggard ddealltwriaeth dda o'r offer, yr arwyddion o orddos a'r cyngor cyfredol ar leihau niwed, ac mae rhai ohonynt wedi'u hyfforddi fel Ymatebwyr Cyntaf. Maent yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth am fygythiadau newydd a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg, megis nitasinau yn ymddangos mewn samplau heroin. Caiff pecynnau triniaeth a hyfforddiant ar gyfer Naloxone a gofal clwyfau eu dosbarthu'n rheolaidd a chynigir gwasanaeth profion smotyn gwaed sych. Mae citiau hunan-brofi ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a chondomau hefyd ymhlith y gwasanaethau a'r cynhyrchion a gynigir gan fod llawer o weithwyr stryd yn defnyddio'r cyfleuster.

Meddai David: 'Rydym yn gweld difwynwyr a mwy o ddefnydd o gyffuriau lluosog, sy'n gwneud dadebru'n anoddach. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu harwain yn rhannol gan ddirywiad parhaus yn ansawdd y cyffuriau sydd ar gael.'

Mae staff hefyd wedi'u hyfforddi i ymateb i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, maent wedi'u hyfforddi i ymdrin â thrawma ac maent yn gorfod ymdrin ag unigolion dryslyd sy'n chwilio am hanfodion fel bwyd, dillad a lloches yn ogystal â chwilio am gyffuriau ac arian i gael gafael ar gyffuriau. Gall rhai unigolion fod yn ymosodol a threisgar, felly mae dealltwriaeth o hynny a'r gallu i ymateb yn briodol yn allweddol bwysig. Rydym hefyd yn atgyfeirio unigolion at wasanaethau eraill, gan gynnwys nyrsys digartrefedd GCACAF.

Enillodd y tîm hwn y categori 'Gweithiwr Critigol' yn y Gwobrau Dewi Sant cenedlaethol y llynedd.

Yn 2004, dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd fod tystiolaeth gymhellol yn dangos bod rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn helpu i atal lledaeniad HIV, a'u bod hefyd yn gost-ffeithiol ac yn un o'r buddsoddiadau gorau y gall y GIG ei wneud. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod canolfannau dan oruchwyliaeth yn lleihau'r risg o orddos, firysau a gludir yn y gwaed, sbwriel cyffuriau a chwistrellu cyhoeddus, a'u bod hefyd yn arwain at y manteision eraill y bydd yr Athro Stephens yn siarad amdanynt.

**Lincs defnyddiol:**

- Gwefan:

[https:// www.huggard.org.uk](https://www.huggard.org.uk)

- Cyfryngau cymdeithasol:

<https://twitter.com/huggardcentre>

### **Yr Athro Alex Stevens, Prifysgol Caint**

Mae Alex Stevens yn Athro mewn Cyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol Caint. Mae mwy na 200 o Ganolfannau Atal Gorddos yn weithredol ledled y byd. Siaradodd yr Athro Stevens am y dystiolaeth academaidd sy'n gysylltiedig â rôl canolfannau atal gorddos o ran lleihau niwed i'r bobl sy'n defnyddio cyffuriau a'r cymunedau y maent yn defnyddio cyffuriau ynddynt.

Cyflwynodd yr Athro Stevens ei hun a diolchodd i'r gynulleidfa am fod yn bresennol. Nododd ei fod yn bleser arbennig dod i Gymru oherwydd iddo gael ei eni yng Nghymru, a hefyd bod Cymru 'mor bell ar y blaen o gymharu â Lloegr o ran ei hagwedd at leihau niwed'.

Rhannodd yr Athro Stevens ddelweddau o nifer o uwch ganolfannau lleihau niwed a canolfannau atal gorddos, yn ogystal â'r staff a'r gweithwyr gwirfoddol sy'n gweithio ynddynt. Roedd y rhain yn cynnwys Grŵp Allgymorth ac Ymgysylltu Cymunedol Sandwell (SCORE yn Saesneg), sef grŵp o weithwyr cymheiriaid sy'n gweithio gyda defnyddwyr cyffuriau. Ymhlith pethau eraill, maen nhw'n gweithio i lanhau'r manau cyhoeddus lle mae pobl yn defnyddio cyffuriau. Yn y bôn, mae canolfannau lleihau niwed ac atal gorddos yn fannau sydd o fudd i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Yn yr un modd ag y mae'r cymunedau hyn yn dymuno peidio â gorfod gweld pobl yn defnyddio cyffuriau'n gyhoeddus, nid yw pobl sy'n defnyddio cyffuriau am fod yng ngolwg yr heddlu a'r cyhoedd ychwaith. Mae yna nifer o dermau gwahanol ar gyfer lleoliadau o'r fath, ond at ddibenion y sgwrs hon dywedodd yr Athro Stevens y byddai'n cyfeirio at 'ganolfannau atal gorddos'.

Rhannodd ddelweddau o ganolfan o'r fath yn y Swistir, sydd wedi'i lleoli mewn amgylchedd clinigol hirsefydlog. Cyferbynodd hyn â Glasgow, lle defnyddir hen ambiwlans o Dde Cymru, gan ddangos yr ystod o fformatau posibl. Bellach, mae 17 o wledydd ledled y byd yn cymeradwyo'r defnydd o ganolfannau atal gorddos, a Colombia yw'r diweddaraf o'r rhain. Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau wedi'u lleoli yn Ewrop, 'oherwydd yn Ewrop cydnabyddir mai dyma'r hyn yr ydych yn ei wneud os oes gennych broblem iechyd'. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil yn y maes yn dod o Ganada ac Awstralia, lle mae'r broses wedi bod yn fwy dadleuol, felly dyma lle mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau peilot a gwaith academaidd ar y pwnc wedi'u gwneud i brofi'r manteision i randdeiliaid.

Dywedodd yr Athro Stevens fod y wybodaeth a rannwyd gan Dave yn gyflwyniad perffaith gan mai canolfannau atal gorddos yw'r cam nesaf naturiol ar ôl rhaglenni nodwyddau a chwistrellau. Ychwanegodd ei bod yn afresymegol darparu holl

wasanaethau rhaglenni o'r fath ac yna dweud wrth bobl am fynd i ffwrdd i chwistrellu mewn man cyhoeddus.

Dangosir bod gan ganolfannau atal gorddos lu o fanteision. I'r bobl sy'n defnyddio cyffuriau, maent yn:

- lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau;
- effeithiol wrth ymgysylltu â phoblogaethau ymylol iawn sy'n anodd eu cyrraedd; ac yn
- hwyluso mynediad at ofal iechyd a thai.

Pan yn defnyddio cyffuriau'n gyhoeddus, mae pobl yn aml yn rhuthro gan nad ydynt am gael eu gweld gan yr heddlu (trosedd) na'r cyhoedd (stigma). Mae'r broses hefyd yn fudr, a gall y pecyn glân o'r rhaglen nodwyddau a chwistrellau gael ei ollwng ar y llawr. Mae pobl yn aml yn defnyddio cyffuriau ar eu pennau eu hunain. Mae canolfannau atal gorddos hefyd yn dod â manteision i gymunedau, gan gynnwys:

- lleihau baich iechyd y bobl sy'n defnyddio cyffuriau;
- lleihau sbwriel cyffuriau; a
- lleihau'r defnydd o gyffuriau yn gyhoeddus.

Nododd yr Athro Stevens y pwyntiau a ganlyn:

- nid oes tystiolaeth i awgrymu bod canolfannau atal gorddos yn denu pobl sy'n defnyddio cyffuriau i ardal benodol; ac
- nid oes tystiolaeth i awgrymu bod canolfannau atal gorddos yn cynyddu cyfraddau troseddu lleol.

Nid yw trethdalwyr yn awyddus i dalu am ambiwlansys ac adrannau damweiniau ac achosion brys, ac mae canolfannau atal gorddos yn lleiahu'r angen am wariant ar y pethau hyn.

Y lleoliad rhesymegol ar gyfer rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yw'r llefydd hynny lle mae pobl yn cael mynediad at gyffuriau ac yn eu defnyddio. Mae canolfannau atal gorddos yn dilyn rhesymeg debyg.

Mae'r Athro Stevens yn rhan o grŵp academiaidd sydd newydd gwblhau meta-astudiaeth yn edrych ar 391 o astudiaethau rhyngwladol ar ganolfannau atal gorddos.

CAM I'W GYMRYD: Gofynnwyd i Kaleidoscope rannu copi o gyflwyniad yr Athro Stevens, ac maent bellach wedi gwneud hynny.

Mae'r holl faterion y soniodd Dave amdanynt sy'n golygu bod rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn llwyddiannus yn berthnasol i ganolfannau atal gorddos hefyd.

Lle – yn rhoi amser a man diogel i bobl ddefnyddio eu cyffuriau gyda'r risg lleiaf posibl

Offer - mae offer glân yn lleihau'r risg o haint

Cyngor – ar sut i chwistrellu, gan fod rhai arferion yn fwy peryglus nag eraill. Dangosir bod yr ymddiriedaeth sy'n cael ei meithrin yn cynyddu'r siawns y bydd pobl yn ceisio cael mynediad at ystod ehangach o wasanaethau

Dadebru – Dangoswyd bod argaeledd staff hyfforddedig sydd â mynediad at Naloxone ac ocsigen, yn ogystal â sgiliau adfywio cardio-pwlmonaidd, yn helpu i wrthdroi gorddosau a allai ddigwydd ar y safleoedd.

Mae'r gwaith ansoddol yn dangos bod y ffaith bod 'rhywun yn malio os ydw i'n byw neu'n marw' yn gallu bod yn fan cychwyn gobeithiol i bobl nad oeddent yn credu bod unrhyw un yn poeni amdanynt o'r blaen. Mae pobl sy'n defnyddio'r lleoliadau hyn yn gwybod bod rhywun yn poeni amdanynt, ac y byddant yn ymyrryd yn achos gorddos. Mae hynny'n helpu i feithrin ymdeimlad o ddiogelwch, sy'n fan cychwyn hollbwysig. Y teimlad y mae pobl yn ei gael pan NAD ydynt yn defnyddio cyffuriau yw eu bod mewn perygl - yn seicolegol. Mae'r ganolfan atal gorddos yn meithrin ymdeimlad o ddiogelwch emosïynol ac ymddiriedaeth sy'n darparu llwybr tuag at atgyfeiriad at wasanaethau eraill.

Mae gan Insight Vancouver gyfleuster o'r enw Onsite - canolfan ddadwenwyno ar y safle. Felly, os yw pobl yn dymuno rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau, gallant gael mynediad at y gwasanaeth perthnasol ar unwaith. Mae gan lawer o unigolion sy'n defnyddio canolfannau o'r fath broblemau gyda'u dannedd a'u hysgyfaint, ac mae modd trin y problemau hyn ar yr un safle. Mae'r canolfannau mwy cynhwysfawr hyn yn darparu mynediad uniongyrchol at ymdeimlad o gynhwysiant cymdeithasol, sy'n gallu bod yn brofiad newydd i nifer o'r bobl y mae'r gwasanaethau yn gweithio gyda nhw. 'Yn fy marn i, mae tai yn dod cyn adferiad.' Hyd yn oed lle nad oes cyfleusterau ychwanegol o'r fath ar gael ar y safle, mae canolfannau atal gorddos yn cynnig llwybr at ystod o gymorth i helpu pobl i symud ymlaen â'u bywydau.

Cyflwynodd yr Athro Stevens ystod o'r dystiolaeth sy'n sail i'r datganiadau hyn. Roedd llawer o'r data'n dangos bod buddion canolfannau atal gorddos ar gyfer y bobl sy'n defnyddio cyffuriau a'r gymuned leol yn lleol iawn eu natur. Mae pobl fel arfer yn defnyddio cyffuriau yn agos iawn i le prynwyd y cyffuriau hynny.

Pwysleisiwyd effaith y canolfannau drwy gyfeirio at yr astudiaeth yn Vancouver, a ddangosodd y byddai cyfraddau HIV bron yn dyblu pe bai'r ganolfan atal gorddos yn cau.

Meddai'r Athro Stevens: 'Gwn fod y drwgdeimlad tuag at bobl sy'n defnyddio cyffuriau mewn nifer o lefydd yn gysylltiedig â sbwriel cyffuriau'. Cyfeiriodd at ddwy astudiaeth sampl sy'n dangos bod pobl sydd fel arfer yn defnyddio cyffuriau ac yn taflu'r sbwriel cysylltiedig mewn mannau cyhoeddus yn cael eu denu i ganolfannau atal gorddos i ddefnyddio cyffuriau a thafu'r sbwriel. Dangosodd yr astudiaeth o Awstralia ostyngiad sylweddol yng nghyfran y trigolion a pherchnogion busnes a ddywedodd eu bod wedi gweld pobl yn defnyddio cyffuriau ac yn taflu offer chwistrellu mewn mannau cyhoeddus.

Mae rhai pobl yn honni y gallai canolfannau atal gorddos ddenu pobl a throedd i'r ardal leol. Cyflwynodd yr Athro Stevens astudiaeth ar ofod diganiatâd a lleoliad rheoledig a

ddangosodd nad yw presenoldeb neu absenoldeb canolfan atal gorddos yn cael unrhyw effaith ar adroddiadau o ymddygiad troseddol.

Nododd yr Athro Stevens un cyfyngiad ar y dystiolaeth academiaidd sy'n deillio o natur yr hyn sy'n cael ei astudio, sef y byddai rhai pobl, yn enwedig unigolion o gefndir meddygol, yn awyddus i gynnal hap-dreialon rheoli. Yr unig ffordd o wneud hynny yn y DU fyddai naill ai agor 40 o wasanaethau a chymharu'r canlyniadau, neu agor un gwasanaeth, ei gynnig i bobl sy'n defnyddio cyffuriau ond wedyn dim ond caniatáu i hanner ohonynt gael mynediad at y gwasanaeth, gan astudio'r canlyniadau ar gyfer y rheini a gafodd eu cynnwys a'r rhai a eithriwyd. Nid yw'n ymarferol gwneud hyn naill ai fesul safle neu fesul unigolyn. O ganlyniad, bydd bob amser rhai pobl o gefndir meddygol a gwleidyddion yn gwrthwynebu canolfannau o'r fath, a byddant yn defnyddio'r diffyg treialon i herio'r data. Fodd bynnag, mae degawdau o dreialon 'lled-feddygol' yn awgrymu bod y gwelliannau a ddangosir yn y sylfaen dystiolaeth yn gadarn a bod modd eu profi.

Daeth yr Athro Stevens i ben drwy ddweud ei fod newydd ysgrifennu llyfr academiaidd ar sut y caiff polisi cyffuriau ei wneud, sy'n dod i'r casgliad nad yw polisi ym maes cyffuriau yn cael ei lywio gan dystiolaeth. Yn hytrach, caiff polisi ei arwain gan foesoldeb personol ac ysgogiadau gwleidyddol.

#### **Lincs defnyddiol:**

- Yr Athro Alex Stevens, Prifysgol Caint:  
<https://www.kent.ac.uk/social-policy-sociology-social-research/people/1536/stevens-alex>
- Gwefan Drugscience:  
<https://www.drugscience.org.uk/>

#### **Crynodeb o'r Cwestiynau, y Sylwadau a'r Awgrymiadau a Wnaed:**

Diolchodd Peredur Owen Griffiths i'r siaradwyr ac awgrymodd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu at yr holl ymgeiswyr yn yr etholiadau ar gyfer rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ledled Cymru i ofyn eu barn ar y pwnc hwn. Awgrymodd hefyd y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu llythyr at ddarpar Weinidog Iechyd newydd Cymru a'r Dirprwy Weinidog unwaith y bydd y Cabinet newydd yn hysbys.

Atebodd y siaradwyr gwestiynau o'r ystafell ac ar-lein

**Cwestiwn ar-lein** – beth sy'n digwydd pan na fydd ymyriad cychwynnol yn datrys y mater? Beth sy'n atal y cylch niwed rhag aildechrau?

**Yr Athro Alex Stevens (AS)** – i bobl yn y grwpiau mwyaf heriol a dryslyd, gall canolfannau atal gorddos gynnig yr unig lwybr i mewn i wasanaethau. Mae gennym grŵp o bobl nad ydynt yn derbyn unrhyw wasanaethau o gwbl, ac sydd mewn perygl



mawr o farwolaeth. Bydd eu patrwm o ddefnydd yn parhau nes iddynt farw, mewn llawer o achosion. Mae gennym gyfle i ddarparu gofod sy'n ddiogel ac sy'n gallu eu helpu i symud tuag at ddadwenwyno a thriniaeth.

**Cwestiwn** – Yr hyn sy'n bwysig, yn fy marn i, yw nad ydym yn gadael y i'r system ehangach laesu dwylo. Gallwn weld fod y bobl sydd fwyaf agored i farwolaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn heneiddio ac yn fwy bregus; maent yn aml yn rhyddhau eu hunain o'r ysbyty, sy'n arwydd bod y system yn gwthio'r unigolion bregus hyn allan o ofal sylfaenol. Mae angen inni beidio â gadael i ofal sylfaenol laesu dwylo dim ond oherwydd bod y claf dan sylw yn defnyddio cyffuriau. Os oes ganddynt broblemau gyda'r galon neu'r ysgyfaint, er enghraifft, maent yn broblemau gwirioneddol sy'n galw am fynediad at ofal sylfaenol. Nid yw pobl sy'n defnyddio cyffuriau yn cael fynediad at ofal sylfaenol, ac mae'n rhaid rhoi sylw i hynny hefyd fel rhan o ddull cyfannol.

**AS** - Oes, mae angen i ni osgoi '*interventionitis*'. Ni all un ymyriad ar ei ben ei hun ddatrys yr ystod eang o broblemau a wynebir gan yr unigolion yr ydym yn sôn amdanynt. Rwy'n adnabod un nyrs sy'n gweithio gyda phobl sy'n defnyddio cyffuriau yn gyhoeddus mewn cae mwdlyd. Byddai'n well pe gallai cerbyd meddygol glân fynd allan i'r unigolion hynny a darparu pecyn cynhwysfawr o ofal iechyd lle mae ei angen.

**Martin Blakebrough (MB)** – Mae model peilot Caerdydd sy'n cael ei drafod yn welliant o gymharu â'r cyfleusterau presennol. Pam na all meddygon teulu roi presgripsiynau sylfaenol y tu allan i amgylchedd y feddygfa?

**Cwestiwn** – Gwnaethoch gyfeirio at y ffaith nad y dystiolaeth yw'r broblem, a bod y dystiolaeth yn weddol glir. Gwleidyddiaeth sydd wrth wraidd yr her. Rhaid gofyn pa neges rydym yn ei rhannu'n rhagweithiol â'r arweinyddiaeth wleidyddol i egluro beth sydd angen inni ei wneud. Sut mae gwneud y neges yn dderbyniol mewn termau gwleidyddol? Mae'n ymddangos y gallai dadl economaidd weithio'n well mewn rhai achosion, yn hytrach na dadl foesol.

**Ateb** – Y naratif sy'n bwysig fan hyn – beth rydym yn ei ddweud wrth y cyhoedd a gwleidyddion? Credwn fod yr unigolion yr effeithir arnynt yn fodau dynol sy'n haeddu urddas. Yn wleidyddol, mae cyffuriau'n gysylltiedig â throstedd. Mae triniaeth i atal y defnydd o gyffuriau yn lleihau cyfraddau trosedd, felly gellir sicrhau cyllid ar gyfer y triniaethau hyn oherwydd y canfyddiad y bydd hyn yn hwyluso'r frwydr yn erbyn trosedd. Mae'r agwedd hon yn annymunol o ran ein credoau craidd. Fodd bynnag, yn ein hachos ni, mae disgrifio'r ddadl ddifoeseg neu anfoesol, yn ogystal â'r ddadl amheronol, yn bosibl gan fod gennym dystiolaeth o ran yr effaith ar sbwriel cyffuriau a chostau iechyd.

**Peredur Owen Griffiths** – Mae'r materion gwleidyddol yn berthnasol pan rydym yn ystyried sut i siarad â phobl nad ydynt yn cytuno â'n safbwynt ni. Mae cysylltu â Chomisïynwyr yr Heddlu a Throsedd yn fan dechrau da – gyda chyfle arbennig i wneud hynny cyn mis Mai oherwydd yr etholiadau, felly mae achos i wahodd yr holl ymgeiswyr i gwrdd â ni. Mae yna heriau sy'n gysylltiedig â datganoli, a'r angen i wahaniaethu rhwng y materion sydd wedi'u datganoli a'r materion nad ydynt wedi'u datganoli. Mae iechyd, addysg a'r economi oll yn faterion datganoledig. Fodd bynnag, nid yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli, felly dyna lle mae'r tensiwn yn codi. Gall y ddadl economaidd gyffwrdd â

phortffolio gwleidydd gwahanol. Amseroedd aros ar gyfer ambiwlansys, amseroedd aros mewn ysbytai, y gallu i gael apwyntiadau meddygon teulu - gall popeth rydym yn ei wneud i leddfu'r pwysau yn y meysydd hyn helpu'r achos. Yr wythnos nesaf, rydym yn pleidleisio ar y gyllideb, a dyma'r gyllideb fwyaf heriol o bosibl ers datganoli. Nid torri costau yw'r unig ddatrysiad, oherwydd gall dylunio gwasanaethau mewn modd arloesol arbed arian.

**Martin Blakebrough** – Mae'n ddiddorol bod yna wleidyddion ar draws y sbectrwm o blaid canolfannau atal gorddos yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod haen o weision sifil oddi tanynt sydd i'w gweld yn dehongli barn bosibl y gwleidyddion ac yn datgan bod uwch ganolfannau lleihau niwed yn erbyn y gyfraith; mae angen inni gael mynediad at y garfan honno o bobl.

**Cwestiwn** – Mae honno'n sgwrs bwysig i'w chael oherwydd gall fod yn rhwystr a fydd yn atal Byrddau Cynllunio Ardal rhag cymryd rhan mewn prosiectau o'r fath.

**Cwestiwn** – Mae'n ymddangos y bydd llawer o wleidyddion yn gwneud yr hyn sy'n debygol o fod yn boblogaidd yn hytrach na wynebu'r risg o fod yn amhoblogaidd. Mae'n teimlo mai ychydig iawn o bobl sydd wedi sgysio'n uniongyrchol â'r cymunedau yr effeithir arnynt. Mewn gwirionedd, er bod gan y bobl sy'n byw yn y cymunedau hyn bryderon am sbwriel ac ati, maent hefyd yn pryderu am lesiant y bobl sy'n defnyddio cyffuriau. Felly, mae'r gwaith ymgysylltu cymunedol hwnnw'n allweddol bwysig. Mae'n debyg mai gweithwyr proffesiynol ym maes lleihau niwed sy'n bennaf yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol, ac efallai y dylem fynd allan i'r gymuned i ymgysylltu'n uniongyrchol. Mae costau byw, yr argyfwng tai ac ati yn effeithio ar bob un ohonom, felly efallai y bydd gwaith ymgysylltu ehangach yn helpu i ennyn mwy o gydymdeimlad â'n gwaith. Bydd y gwaith hwn, yn ei dro, yn helpu i ddwyn perswad ar wleidyddion i flaenoriaethu'r materion cysylltiedig.

Peredur Owen Griffiths – Mae'r polisi 20mya yn enghraifft o fater sy'n ymddangos fel pe bai ganddo sylfaen dystiolaeth gadarn. Fodd bynnag, oherwydd y ffordd y cafodd y polisi ei weithredu a'i orfodi, mae wedi bod yn amhoblogaidd. Pe bai wedi cael ei drafod mewn ffordd fwy ymgynghorol, efallai y byddai'r ymateb wedi bod yn wahanol. Mae'n rhaid i gamau i rymuso cymunedau i wneud eu penderfyniadau eu hunain fod yn rhan o'r broses o lunio polisi. Mae rhai polisiâu yn ymddangos yn amhoblogaidd nes i chi eu trafod â phobl. Felly, yr her yw sut mae cael trafodaeth wleidyddol sy'n arwain at gonsensws yn hytrach na bod yn rhaid cymryd camau gorfodi.

**David Wing** - Y gwir amdani yw bod gan y ganolfan Huggard enw drwg mewn rhai rhannau o'r gymuned ers rhai blynyddoedd. Mae'n anodd iawn newid y canfyddiad hwnnw. Weithiau, rydym yn brwydro i wella bywydau ar yr un pryd ag ymdrechu i newid canfyddiadau di-sail.

Diolchodd Peredur Owen Griffiths i bawb a oedd yn bresennol, boed hynny yn yr ystafell neu ar-lein, ac i'r siaradwyr gwadd. Nodwyd y byddai llythyrau yn cael eu hanfon i ofyn rhagor o gwestiynau a cheisio barn ar faterion penodol.

Martin Blakebrough – mae ymateb yr heddlu yn obeithiol. Mae'r heddlu wedi bod yn gefnogol iawn yn lleol a ledled Cymru, gan ein helpu i wneud hyn yn realiti. Maent yn

cydnabod na allwn 'blismona ein ffordd allan o'r argyfwng cyffuriau'. Maent hefyd yn rhannu'r farn mai mater iechyd yw hwn yn ei hanfod i'r bobl sy'n defnyddio cyffuriau, nid mater o gyfiawnder troseddol.

Gorffennodd Peredur Owen Griffiths drwy nodi'r cyfle sydd gennym ar hyn o bryd i ofyn cwestiynau a dechrau trafod â'r bobl nad ydynt wedi cymryd rhan yn y trafodaethau hyn o'r blaen.